CYFARWYDDIADOL

Rhan o beth yw hwn ydych chi'n meddwl? Pam?

**Cyfarwyddiadau - Taith Porth Tŷ Mawr, Llangwnadl yn cychwyn a gorffen ym maes parcio Pont yr Afon Fawr.**

Beth sy'n dangos mai cyfarwydd-iadau sydd yma?

- Cychwyn o faes parcio Pont yr Afon Fawr .
- O'r maes parcio, croesi'r bont a dilyn llwybr i'r chwith i Draeth Penllech.
- Cerdded ar hyd y traeth tua'r gorllewin.
- Mynd trwy giat ar y chwith a pharhau ymlaen ar hyd ben yr allt tua Phorth Colmon.
- Ymlaen eto drwy Borth Colmon nes cyrraedd Porth Tŷ Mawr.
- Troi i ffwrdd o'r arfordir, heibio fferm Tŷ Mawr a dod allan yn Ffordd yr Arfordir.
- I'r chwith a heibio Bryn Villa ac yna troi i lwybr ar y dde ger Ty Cefn.
- Troi i'r dde pan ddaw'r llwybr hwnnw allan i ffordd Penygraig i Hebron. Troi i'r chwith i'r lôn sy'n arwain i Dy'n Rhos.
- Dilyn y llwybr ddaw allan rhwng Eglwys Llangwnadl a'r He Ysgol. (Mae'n werth ymweld ag Eglwys Llangwnadl)
- Mynd ar y llwybr ger yr Hen Ysgol a thrwy Barc Nant.
- Pan daw'r llwybr allan ar Ffordd yr Arfordir, troi i'r dde a cherddded heibio Ty'n Cae, Nant a Phenllech Uchaf yn ôl i'r maes parcio.

Oes rhyw ffurf y byddech chi wedi disgwyl ei weld ar goll yma? Pa effaith mae hynny'n ei gael?

Oes gennych chi awgrymiadau i wneud y cyfarwyddia-dau'n gliriach a haws eu dilyn?



GwE
YSGOL BOTWNNOG
YSGOL DYFFRYN OGWEN
YSGOL TRYFAN
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government